Pwy sydd â'r grym?

Oed: 8+

Gweithgaredd:

Bydd angen i chi fod wedi gwneud y gweithgareddau sy'n archwilio pam mae plant yn colli'r cyfle i gael addysg.

Yn dibynnu, efallai, ar beth mae'r disgyblion wedi canolbwyntio hyd yn hyn, gallech chi ddefnyddio'r gweithgaredd hwn i archwilio pwy sydd â'r grym i fynd i'r afael ag un neu'r cyfan o'r canlynol:

- Y rhesymau pam mae cymaint o blant yn colli'r cyfle i gael addysg
- Y rhesymau pam mae cymaint o ferched yn colli'r cyfle i gael addysg
- Y rhesymau pam mae prinder athrawon

Lluniwch dabl fel yr un sydd ar y dudalen nesaf a thrafodwch y cwestiynau canlynol fel dosbarth:

- Beth fyddai'n helpu gwneud gwahaniaeth ar gyfer pob un o'r rhesymau gwahanol?

Ychwanegwch y wybodaeth hon at y siart wrth i'r disgyblion ddod o hyd i awgrymiadau.

- Pwy sydd â'r grym i newid y ffactorau hyn? Eto, ychwanegwch awgrymiadau'r disgyblion at y siart.

Trafodwch pwy sy'n gallu helpu a sut – ac anogwch y disgyblion i ddatblygu eu syniadau.

- Beth allwn ni wneud i ddylanwadu ar y bobl sydd â'r grym i newid pethau?

Ychwanegwch yr awgrymiadau at y bedwaredd golofn.

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol

ANFON FY FFRIND 08

Pwy sydd â'r grym?

Rhesymau pam mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol (neu ganolbwynt o'ch dewis chi)	Beth fyddai'n helpu gwneud gwahaniaeth?	Pwy sydd â'r grym i newid pethau?	Beth allwn ni wneud i ddylanwadu ar y rhai sydd â'r grym?
Ddim yn gallu fforddio ffioedd ysgol	Addysg am ddim	Llywodraeth y wlad Llywodraethau cenhedloedd cyfoethog a all roi cymorth	
Prinder athrawon oherwydd: Mae athrawon yn mynd yn dost gydag afiechydon sy'n gysylltiedig ag AIDS Mae pobl yn teimlo nad yw addysgu'n swydd sy'n cael parch Mae gwledydd cyfoethocach yn cynnig cyflog gwell, felly mae athrawon yn gadael eu gwlad enedigol...	Addysg well i bawb ynglŷn â sut i aros yn iach ac osgoi HIV. Storïau mwy cadarnhaol yn y cyfryngau	Llywodraeth y wlad Y cyfryngau a phobl sy'n prynu papurau newydd.	
ayyb			

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol